



DATGANIAD NEWYDDION

11 AWST 2021

CORFF GWARCHOD IECHYD YN GOFYN I BOBL DRAFOD Y GWASANAETHAU THERAPI IAITH A LLEFERYDD

Mae'r corff gwarchod annibynnol i ogledd Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – yn awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiad o wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd yng ngogledd Cymru.

Bydd CICGC yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ar draws chwe sir gogledd Cymru neu drwy fideo gynadledda, yn ystod mis Medi, Hydref a Tachwedd. Gwahoddir cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd i siarad am bob agwedd o Wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd GIG. Cynhelir y digwyddiadau fel a ganlyn – gyda 3 sesiwn wahanol ym mhob lleoliad.

Conwy				
8 Medi	Cyffordd Llandudno	10.00am	1.30pm	4.00pm
7 Hydref	Bae Colwyn	10.00am	1.30pm	4.00pm
15 Hydref	Betws-y-coed	10.00am	1.30pm	4.00pm
12 Tachwedd	Llanfairfechan	10.00am	1.30pm	4.00pm
Sir Ddinbych				
13 Hydref	Rhuddlan	10.00am	1.00pm	3.30pm
1 Tachwedd	Corwen	10.00am	1.00pm	3.30pm
11 Tachwedd	Dinbych	10.00am	1.30pm	4.00pm
Sir y Fflint				
29 Medi	Cei Conna	10.00am	1.30pm	4.00pm
22 Hydref	Yr Wyddgrug	10.00am	1.30pm	4.00pm
17 Tachwedd	Y Fflint	10.00am	1.30pm	4.00pm

Gwynedd				
7 Medi	Porthmadog	10.00am	1.30pm	4.00pm
14 Hydref	Y Ganllwyd	10.00am	1.30pm	4.00pm
8 Tachwedd	Tywyn	10.00am	1.30pm	4.00pm
18 Tachwedd	Bangor	10.00am	1.30pm	4.00pm
Wrecsam				
1 Hydref	Wrecsam	10.00am	1.30pm	4.00pm
5 Tachwedd	Rhosllanerchrugog	10.00am	1.30pm	4.00pm
9 Tachwedd	Wrecsam	10.00am	1.30pm	4.00pm
Ynys Môn				
6 Medi	Amlwch	10.00am	1.30pm	4.00pm
19 Hydref	Llangefni	10.00am	1.30pm	4.00pm
25 Tachwedd	Porthaethwy	10.00am	1.30pm	4.00pm
Digwyddiad Rhithiol				
4 Hydref	Ar lein			6.30pm
11 Hydref	Ar lein		2.00pm	
20 Hydref	Ar lein	10.00am		

Dywedodd Mr Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog CICGC *“Rydym wedi gweithio gyda Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd BIPBC i sicrhau bod pobl yn cael dweud eu dweud ar y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu datblygu yng ngogledd Cymru. Cynhelir ein digwyddiadau ymgysylltu mewn sawl lleoliad ar draws yr ardal, gan roi cyfle i bobl roi gwybod i ni am eu profiadau o’r gwasanaethau. Mae’n hanfodol ein bod yn cyflwyno adborth ac awgrymiadau pawb sy’n defnyddio gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd i’r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau a pholisiâu”.*

Aeth Mr Ryall-Harvey ymlaen i ddweud *“Bydd y digwyddiadau yn cael eu trefnu o amgylch nifer o agweddau fel canmoliaeth, pryderon a chwynion, cynllunio gofal, darpariaeth gofal a chyfathrebu. Rydym yn deall mewn rhai amgylchiadau y bydd pobl yn dymuno rhannu profiadau mewn ffordd fwy gyfrinachol a byddwn yn sicrhau bod cyfle i drafodaethau o’r fath ddigwydd yn breifat”.*

Os ydych yn dymuno mynychu unrhyw un o’r digwyddiadau neu i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chyngor Iechyd

Cymuned Gogledd Cymru ar rif ffôn: 01248 679284 (*ds mae system ffôn ateb yn weithredol – gadewch neges a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi*) neu ar e-bost yourvoice@wales.nhs.uk

Gallwch hefyd gofrestru i fod yn bresennol drwy'r ap SurveyMe drwy ddefnyddio'r ddolen isod:



<https://svy.at/b7f1g>

DS Mae'r cofrestru ar sail y cyntaf i'r felin, ond byddwn yn trefnu sesiynau ychwanegol fel bo angen

Wrth gadw lle, gadewch i ni wybod os ydych yn dymuno cyfrannu i'r trafodaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gadewch i ni wybod hefyd am unrhyw ofynion mewn perthynas â chyfathrebu neu fynediad.

Nodiadau i olygyddion

1 Mudiad annibynnol statudol yw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru. Daeth i fod ar 1 Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru gan wasanaethu Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd. Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 675,500.

2 Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe pwyllgor lleol, un ar gyfer y chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau a ddaw o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau o'r sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Diwedd